Croeso cynnes iawn i
EGLWYS ANNIBYNNOL MINNY STREET, CAERDYDD
www.minnystreet.org
Gweinidog: **Y Parchedig OWAIN LLYR EVANS**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu a chyfeillion **Emyr Daniel** (Y Mynydd Bychan) fu farw yn sydyn ar Chwefror 10. Cynhelir gwasanaeth i ddiolch am ei fywyd yma yn Minny Street brynhawn Gwener (Chwefror 24) am 1:30 ac i ddilyn yn yr Amlosgfa am 3:30.

Dy fendith nefol dad
Fo ar dy blant i gyd,
A boed dy adain dros ein gwlad
A'th heddwch dros y byd.

Dydd Sul, Chwefror 19

Oedfaon y dydd dan arweiniad **ein Gweinidog**

10:30 **Oedfa Foreol** *(thema'r oedfa:* ***Cam wrth gam trwy Efengyl Mathew)*** ac **Ysgol Sul** (Tîm 2)

Thema adnodau'r oedolion: ***TRUGAREDD***

Diolch i **Eilonwy Jones** am ddewis themâu yn seiliedig ar newyddion yr wythnos ar gyfer ein gweddïau yn yr Oedfa Foreol

Bydd y Cylch Dinasyddiaeth yn cyfarfod wedi'r Oedfa Foreol yn benodol i drafod gweithgaredd ***Pythefnos Masnach Deg*** (Chwefror 27-Mawrth 11)

18:00 **Oedfa Hwyrol** *(thema'r oedfa:* ***Gwyddoniaeth a Ffydd: Y Tabl Cyfnodol****)*

19:30 **Koinônia:** yn ***La Trattoria Molisana*** *(angen bod wedi archebu ymlaen llaw)*

Dydd Llun, Chwefror 20

19:00 Cyfarfod Diaconiaid

Dydd Mawrth, Chwefror 21

19:30 Bethania: Fesul gam trwy Efengyl Mathew: Mathew 4: 18-25

Dydd Iau, Chwefror 23

19:30 Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn Minny Street: Myfyrdod y Grawys (1) dan arweiniad ein Gweinidog

Dydd Sul, Chwefror 26

Oedfaon y dydd dan arweiniad **y Parchedig Dewi Myrddin Hughes** (Clydach)

10:30 **Oedfa Foreol** ac **Ysgol Sul** (Tîm 3)

14:30 Minny Street yn gyfrifol am **de i'r digartref** yn y Tabernacl, Yr Âis

18:00 **Oedfa Hwyrol**

~~~~~

YN NEWYDD AR EIN GWEFAN YR WYTHNOS HON: ***www.minnystreet.org***

Munud i Feddwl *(Mr Dombey a 'Fi' & Great Expectations)*

Newyddion Cyfredol **Dyddiadur Wythnosol**

Addoliad a Myfyrdod *(Crynodebau Pregethau & Bethania)*
~~~~~

DARLLENIADAU DYDDIOL

Chwefror 19: II Brenhinoedd 5:1-14; Salm 30; I Corinthiaid 9:24-27; Marc 1:40-45

Chwefror 20: Lefiticus 13: 1-17

Chwefror 21: ***DYDD MAWRTH YNYD*:** Lefiticus 14: 1-20

TYMOR Y GRAWYS

Chwefror 22: ***DYDD MERCHER LLUDW*:** Ioan 4:46-54

Chwefror 23: Daniel 9:1-14

Chwefror 24: Daniel 9:15-25a

Chwefror 25: Salm 32

~~~~~

CYLCH ELUSEN: Yn anffodus***, ni chynhelir y gyngerdd*** gan Gôr Merched Canna er budd ein helusen nos Sul nesaf (Chwefror 26). Os ydych wedi prynu tocyn gallwch fynd at yr aelod wnaeth werthu'r tocyn i chi a chael eich arian yn ôl!. Ond, mae'r rhestr o ***eitemau ocsiwn*** yn y cyntedd, ynghyd â blwch ar gyfer eich cynigion - cymrwch amser i edrych ar y rhestr ac yna cynigiwch yn hael amdanynt! Bydd yr ocsiwn yn digwydd fel rhan o Ginio Pen Tymor y Gymdeithas.

~~~~~~

CYLCH Y GYMDEITHAS A BYWYD CYMDEITHASOL: Mae'r fwydlen ar gyfer y Cinio Pen Tymor (***Nos Iau, Mawrth 29***) i'w gweld yn y cyntedd. Cynhelir y ginio yng Nghlwb Golff Llanisien a'n gwestai eleni fydd Lona Evans. Os am ddod, nodwch eich dewis ar y fwydlen!

~~~~~~

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD: Cynhelir y gwasanaeth blynyddol (a baratowyd eleni gan wragedd Cristnogol o Malaysia) ***brynhawn Gwener***, ***Mawrth 2*** am ***2 o'r gloch*** yn Yr Eglwys Babyddol, Llanedeyrn Drive. Mae lleoliad yr Eglwys yn anghyfarwydd i nifer felly mae posteri ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd yr Eglwys yn y cyntedd. Os oes unrhyw un yn awyddus i fynychu'r cyfarfod ond heb gludiant, mynnwch air â Valmai Evans. Bydd nifer o Minny Street yn cymryd rhan - a gobeithio daw cynrychiolaeth dda i gefnogi.

~~~~~~

CYMORTH CRISTNOGOL: Mae cyfle arbennig, drwy gyfrwng ***Rhaglen Intern Cymorth Cristnogol***, i unrhyw un dros 18 wneud cais i gynllun fyddai'n gyfle i dreulio 10 mis yn ysbrydoli pobl ifanc i weithredu ar ran pobl dlawd ac yn cynnwys treulio amser yn gweld gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol dramor. Manylion llawn, ynghyd a ffurflen gais (dyddiad cau, Ebrill 2), ar wefan Cymorth Cristnogol:
http://www.christianaid.org.uk/getinvolved/volunteer/gapyear/gap_year.aspx

~~~~~~

PABELL EGLWYSI CYMRU yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg: bydd cyfarfod i ddechrau gwneud trefniadau ar gyfer y babell ***nos Fawrth***, ***Chwefror 21*** am ***6:30*** yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. (Manylion llawn yn y cyntedd)

~~~~~~

COFIWCH DDARLLEN YR HOLL WYBODAETH SYDD YN Y CYNTEDD